**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 30 Gorffennaf 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd cysylltiad personol na rhagfarnllyd gan unrhyw un. |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2013 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | GRŴP TASG A GORFFEN YR ADOLYGIAD BWYD | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen yr Adolygiad Bwyd fel y nodwyd ym mharagraffau 3.1 – 3.13 yr adroddiad.* |
| **6** | DATBLYGU 'CYNGOR ARDDERCHOG, SY'N AGOS AT Y GYMUNED' | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cefnogi'r agwedd newydd at y diffiniad o fod yn Gyngor Ardderchog sy'n Agos at y Gymuned, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad;*<br><br>*(b) yn ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth ddatblygu eu cynlluniau eu hunain er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r pedwar thema a amlinellwyd yn y cynllun trosolwg a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac*<br><br>*(c) chefnogi adolygiad gweithgareddau'r Grwpiau Ardal Aelodau i sicrhau bod cyfleoedd i roi adborth a chael barn y gymuned ar lefel leol.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 30 Gorffennaf 2013**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **7** | DIOGELU OEDOLION | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynigion i newid y trefniadau cyfredol ar gyfer diogelu oedolion, yn unol â phob partner ledled Gogledd Cymru, i'r dewis a ffafrir o Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ddwyradd.* |
| **8** | FFURFIO TÎM CEFNOGI TEULUOEDD INTEGREDIG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i sefydlu Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig yn Sir Ddinbych er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau dan Adran 57 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.* |
| **9** | AROLWG LLETY SWYDDFA GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cymeradwyo symud o swyddfeydd Tŷ Nant, Prestatyn (yn amodol ar ganfod defnydd arall i'r adeilad) fel y dewis a ffafrir (dewis 3, paragraffau 4.7-4.9) ar gyfer ad-drefnu swyddfeydd yng ngogledd y Sir.*<br><br>*(b) yn cymeradwyo cynnal ymarfer marchnata ar gyfer adeilad Tŷ Nant, Prestatyn, ar sail les tymor canolig er mwyn hwyluso symud staff Cyngor Sir Ddinbych o'r adeilad, a*<br><br>*(c) yn cymeradwyo ffurfio Briff Cynllunio i hwyluso cynllun datblygu tymor hir ar gyfer safle Prestatyn (amlinellwyd mewn coch yn Atodiad 1) a datblygu briff dylunio ac astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer swyddfeydd newydd yn y Rhyl.* |
| **10** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD -*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(a) nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.*<br><br>*(b) cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodwyd yn Atodiad 5 mewn perthynas â gwaith dylunio ar gyfer Ysgol Glan Clwyd.* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **12** | CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cefnogi cyflwyno Gorchymyn Prynu Gorfodol ac yn argymell bod y Pwyllgor Cynllunio hefyd yn awdurdodi hyn.*<br><br>*(b) yn rhoi cefnogaeth i Swyddogion wneud cynnig i brynu'r safle yn seiliedig ar ymateb y Prisiwr Annibynnol a ffactorau pwysig eraill.*<br><br>*(c) y dylid, cyn prynu'r safle'n ffurfiol, drwy Orchymyn Prynu Gorfodol neu drwy drafodaethau, dderbyn awdurdodiad pellach gan y Cabinet.* |
| **13** | AILDDATBLYGU 21 -24 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo cadarnhau'r telerau y cytunwyd arnynt gyda'r Partner Datblygu i ddatblygu eiddo ar Rodfa'r Gorllewin, y Rhyl, fel y nodwyd ym Mharagraff 3.1 yr adroddiad.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 30 Gorffennaf 2013**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **14** | CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD CORWEN - GWOBRWYO CONTRACT | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo rhoi cytundeb i'r contractwr a enwyd fel y nodwyd ym mharagraff 3 yr adroddiad.* |